Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

POBL IFANC, GWAITH IEUENCTID, GWASANAETH IEUENCTID

# STRATEGAETH GWASANAETH IEUENCTID CENEDLAETHOL CYMRU

## FERSIWN I BOBL IFANC – GAN BOBL IFANC AR GYFER POBL IFANC



PLANT A PHOBL IFANC - GWEITHREDU'R HAWLIAU
CHILDREN AND YOUNG PEOPLE - RIGHTS TO ACTION



## BETH YW'R GWASANAETH IEUENCTID?

Mae cynghorau lleol a mudiadau Gwaith Ieuenctid gwirfoddol yn cynnal Clybiau / Canolfannau Ieuenctid a Mannau / Siopau gwybodaeth.

Mae'r mudiadau hyn yn cynnal prosiectau celf, cerddoriaeth, drama a chwaraeon yn y gymuned, yn ogystal â chynnig gwasanaeth cynghori a gwaith hyd braich (lle rydych chi'n treulio'ch amser).

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnal prosiectau arbennig megis Gwobr Dug Caeredin (dysgu sgil newydd, mynd ar daith, darparu gwasanaeth a chymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol) a gweithgareddau tu allan.

Mae'n gweithio â phobl ifanc mewn ysgolion a gyda Thimau Troseddau Ieuenctid yn ogystal â phobl sy'n gadael gofal a gofalwyr ifanc drwy gynnig sgiliau sylfaenol neu help personol.

Mae'n cynnwys pob un o'r mudiadau ieuenctid gwirfoddol megis y Sgowtiaid, Ambiwlans Sant Ioan a'r Geidiau.

Mae'r mudiadau a'r prosiectau hyn yn helpu i wella

gwasanaethau, cyfleoedd, cymorth, gweithgareddau a phrofiadau, a hynny drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg.

Mae pob un ohonynt yn eich helpu gyda'r rhan fwyaf o'r 10 Hawl y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dweud y dylech eu cael. Yn eu plith mae: -

Addysg, hyfforddiant a gwaith o ansawdd; sgiliau sylfaenol; cyfle i wirfoddoli a dinasyddiaeth weithredol; adeiladau ac offer y gall pawb eu defnyddio; cyngor gyrfaol; cymorth a chyngor personol; cyngor ar iechyd, tai a budd-daliadau; gweithgareddau hamdden a chymdeithasol; chwaraeon, profiadau celfyddydol a cherddorol a phrofiadau yn yr awyr agored a'r cyfle i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

Maent am ichi gael cyfle cyfartal dim ots pwy ydych chi, beth yw eich cefndir nac o ble rydych chi'n dod.

## LLE GALLA'I DDOD O HYD I'R GWASANAETH IEUENCTID?

Gallwch chwilio amdano ar y rhyngrwyd drwy deipio "Gwasanaeth Ieuenctid" ac enw eich cyngor lleol (er enghraifft "Conwy", "Caerdydd" neu "Ceredigion") mewn chwilotwr.





Byddwch yn dod o hyd i enw a rhif ffôn rhywun a all eich helpu i ddod o hyd i’ch math chi o brosiect neu glwb. Gallwch hefyd fynd ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/extending_entitlement/?lang=cy lle mae rhestr o holl wefannau’r Awdurdodau Lleol a manylion sut i ddod o hyd i’w gwasanaethau ieuenctid. Os nad oes gennych gyswllt â’r rhyngrwyd, ffoniwch eich cyngor lleol (mae’r rhif yn y llyfr ffôn) a gofyn am gael siarad ag aelod o’r Gwasanaeth Ieuenctid. Byddan nhw’n gallu eich helpu. Dyma sefydliadau gwybodaeth ieuenctid cenedlaethol fydd yn gallu eich helpu hefyd:

- CLIC
  Ffôn 029 2085 4880
  Ebost: clic@careerswalesassociation.co.uk
  http://www.clicarlein.co.uk
- Canllaw Online
  Ffôn 029 2088 7868
  Ebost: enquiries@canllaw-online.com
  http://www.canllaw-online.com/


## BETH YW STRATEGAETH Y GWASANAETH IEUENCTID?

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gyfuniad o brosiectau a chlybiau a gynhelir gan y cyngor neu gan wirfoddolwyr sydd i'w gael ym mhob un o'r 22 o gynghorau lleol yng Nghymru. Bydd y strategaeth hon yn helpu i sicrhau fod yr un gwasanaeth yn cael ei gynnig ym mhob un o'r ardaloedd hyn. Dyma'r prif bethau y dylech eu disgwyl:

- Beth bynnag yr ydych am ei wneud, eich dewis chi ydyw - mae'n wirfoddol. Gallwch roi cynnig ar bethau newydd, ond os nad ydych yn hapus, gallwch roi'r gorau iddynt. Os oes Gweithiwr Ieuenctid yn eich ysgol neu'ch clwb ieuenctid, neu yn y Tîm Troseddau Ieuenctid, eich dewis chi yw a ydych am gymryd rhan yn un o'u prosiectau neu weithgareddau, neu ofyn iddyn nhw am gyngor.

- Mae'r strategaeth ar gyfer pobl rhwng 11 a 25 oed. Nid oes raid ichi fod â llawer o anghenion na bod yn glyfar. Mae gweithgareddau, prosiectau a chymorth y Gwasanaeth Ieuenctid ar gael i bawb. Weithiau, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio'n galed i sicrhau ei fod





yn rhoi cyfleoedd i'r rhai sydd eu hangen fwyaf, ond nid yw hynny'n rhwystro eraill rhag ymuno.

- Mae cyfle i bawb gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau, neu ofyn am gymorth. Bydd hefyd yn gyfle ichi ddweud eich dweud am sut y mae pethau'n cael eu cynnal a phethau eraill yr hoffech eu gwneud, gan mai dyma'ch hawl o dan Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Efallai y byddwch am ofyn am weithgareddau mewn clwb ieuenctid neu am gael helpu i sefydlu cyfleusterau chwaraeon neu brosiectau eraill yn eich cymuned leol neu'ch ysgol. Efallai hefyd y gallech ymuno â phwyllgor clwb, fforwm ieuenctid neu hyd yn oed cael eich ethol i gynrychioli'ch ardal yn genedlaethol fel rhan o'r Ddraig Ffynci, Cynulliad pobl ifanc Cymru. Gallwch fod yn unig olyn sy'n gwneud penderfyniadau.

## PAM MAE STRATEGAETH Y GWASANAETH IEUENCTID YN BWYSIG I CHI?

- Gan eich bod bellach yn cael gwybod beth yw'ch hawliau, dim ots lle yng Nghymru yr ydych yn byw.

- Mae’r Gwasanaeth Ieuenctid a’i weithwyr yn gwerthfawrogi pobl ifanc, pwy bynnag ydyn nhw.
- Gallwch fod yn rhan o bob math o grwpiau, o’r sgowtiaid a’r guides i glybiau ieuenctid, clybiau cyfrifiadurol a chlybiau chwaraeon. Er na fyddwch yn cael eich gorfodi i gymryd rhan, byddwch yn cael eich annog i roi cynnig ar bethau newydd.
- Gall y Gwasanaeth Ieuenctid eich helpu i ddysgu mewn ffordd gyffrous, llawn hwyl. Gall eich helpu i reoli eich dysgu a dod o hyd i’ch Llwybr Dysgu gorau. Bydd cyfle ichi ddefnyddio a datblygu sgiliau Technoleg Gwybodaeth a thechnoleg y cyfryngau.
- Gall y Gwasanaeth Ieuenctid eich helpu i ddysgu am y pethau sydd yn eich bywyd, a hynny’n gyfrinachol, oni bai ei fod er eich lles chi neu rywun arall bod rhywun arall yn cael gwybod. Gallwch ennill sgiliau ymarferol, personol, cymdeithasol ac emosiynol mewn ffordd gyffrous, drwy ddysgu mwy am eich iechyd, rhyw, cyffuriau a’ch perthynas ag eraill.
- Gall y Gwasanaeth Ieuenctid ennyn eich diddordeb mewn materion yn eich cymuned leol, neu’ch tref neu’ch pentref, yng Nghymru neu yng ngweddill y byd.





- Gall y Gwasanaeth Ieuenctid eich helpu i dyfu fel person drwy feithrin eich sgiliau adeiladu tîm, datrys problemau, rheoli risgiau personol, dylanwadu ar wasanaethau a gwneud gwell penderfyniadau.
- Gall y Gwasanaeth Ieuenctid eich helpu i ddod yn fwy hyderus, datblygu'ch hunan-barch, cynnal gwell perthynas â'ch ffrindiau a phobl eraill yn eich bywyd a'ch helpu i barchu'ch hun ac eraill.
- Gall y Gwasanaeth Ieuenctid eich helpu i gymryd rhan yn y gwasanaethau y mae pob person ifanc yn eu defnyddio a gosod y safonau yr ydych yn eu disgwyl ganddynt.
- Gan fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dweud fod gan bawb sydd rhwng 0 a 25 oed yr hawl i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn targedu'r rhai sydd rhwng 11 a 25 oed. Felly, drwy wybod eich hawliau, mae'r posibiliadau'n ddiddiwedd!

## BETH I'W WNEUD AM Y STRATEGAETH HON


Dros y flwyddyn nesaf, bydd pobl yn gofyn eich barn am yr holl wasanaethau hyn. Byddan nhw'n gofyn ichi beth yw'ch

barn am y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes a beth arall yr hoffech ei weld yn digwydd. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthynt. Os daw'n amlwg bod angen mwy o wasanaethau, mae'n bosibl y bydd mwy o arian yn cael ei fuddsoddi ynddynt. Os na ddywedwch, chewch chi ddim byd.

Bydd gweithwyr ieuenctid yn cael eu hyfforddi'n well. Drwy ddweud beth ydych am i weithwyr ei wneud, byddant yn cael eu hyfforddi i wneud hynny. Bydd y Strategaeth hefyd yn edrych ar sut y gall pobl ifanc heddiw ddod yn weithwyr ieuenctid y dyfodol.

Efallai nad yw'r Gwasanaeth Ieuenctid bob tro yn y lle gorau ichi nac ar agor ar yr amseroedd gorau - efallai bod y grŵp yn cyfarfod mewn safle bws, canolfan chwaraeon, parc, gorsaf drên neu ar gornel y stryd. Mae'n dal yn golygu fod gennych yr hawl i fwynhau'r gweithgareddau mae'r Gwasanaeth yn eu darparu. Byddai'n syniad ichi ddweud wrth bobl ble mae'ch grŵp yn cyfarfod a pha wasanaeth yr hoffech ei weld.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid am wneud yn siŵr eich bod yn cael y cyfleoedd gorau gan ei weithwyr, p'un a yw hyn yn yr ysgol neu'r Tîm Troseddau Ieuenctid, neu os ydych yn berson sy'n gadael gofal neu'n ofalwr ifanc, fel ei fod yn cydweithio mewn partneriaeth â'ch sefydliad - gofynnwch a oes gan eich






sefydliad weithiwr ieuenctid neu gyswllt â'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Mae ar Lywodraeth Cynulliad Cymru angen gwybod pa fanteision y mae pobl ifanc yn eu cael wrth ddod i gysylltiad â gweithwyr ieuenctid. Y bobl ifanc eu hunain sy'n gwybod orau, felly mae'n bwysig eich bod yn dweud am y manteision hynny os bydd cyfle yn codi i wneud hynny. Gallech fod wedi cael yr hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd, cael mwy o gyfleoedd neu'r cyfle i gael gwared ar ddiflastod a gwneud rhywbeth positif.

Felly, bydd pobl yn gofyn beth sydd ei angen arnoch a ble mae'r gwasanaethau hyn. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthynt. Mwya'n y byd y dywedwch wrthyn nhw, y mwyaf tebygol ydynt o allu dod o hyd i arian ychwanegol.

A oeddech yn gwybod bod person ifanc yn treulio 9 munud o bob awr effro yn dysgu'n ffurfiol, mewn ysgolion a cholegau, a 51 munud yn y gymuned? O ran cyllid, mae £4000 yn cael ei wario ar bob person yn flynyddol ar ddysgu ffurfiol a £56 y person ar y gwasanaeth Ieuenctid, sy'n gweithio gyda chi ar weithgareddau yn eich cymunedau lleol. Os hoffech i bethau newid, mae angen ichi ddweud hynny drwy roi gwybodaeth i bobl pan fyddan nhw'n gofyn amdani.